# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Sŵn Y Môr**

**Pwllheli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 23 Mai 2023

23/05/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Sŵn Y Môr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cydweithfa Cartrefi Cymru Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Yr arolygiad hwn oedd yr arolygiad cyntaf ar ôl i'r cartref ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gofal seibiant arhosiad byr i oedolion sy'n ystyried seibiant brys yn dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref gofal ar gyfer hyd at bedwar person.

Mae'r cartref yn fodern ac wedi'i ddylunio at y diben. Mae'r ystafelloedd yn fawr ac yn lân; gall y bobl ddod â'u heiddo gyda nhw. Gall y bobl gael gafael ar y cyfarpar sydd ei angen arnynt ar gyfer eu gofal. Mae lolfa i wylio teledu ac i gymdeithasu a chegin i'r bobl a'r staff ei defnyddio. Mae'r cartref wrth ymyl cartref gofal Tan y Marian a chaiff y cyfleustodau eu rhannu. Caiff yr ardaloedd awyr agored eu cadw'n daclus a gall y bobl eistedd yn yr awyr agored os dymunant.

Mae digon o staff i ddiwallu anghenion gofal y bobl ddydd a nos. Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl o fewn eu galluoedd eu hunain. Caiff y bobl eu hasesu cyn cael cynnig seibiant ac mae'r cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar anghenion unigol y bobl ac yn cael eu diweddaru wrth i bob unigolyn gael eu derbyn am ofal seibiant.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref fel sy'n ofynnol i wirio ansawdd y gwasanaeth a roddir ac i sicrhau ei fod yn bodloni'r rheoliadau. Mae'r staff yn dweud eu bod yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth ddigonol i'w helpu yn eu rôl. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y

cofnodion hyfforddiant a goruchwyliaeth. Mae'r staff yn dweud bod y rheolwyr yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt.

## Llesiant

Gwelsom fod y bobl yn hapus yn y cartref ac yn cael gofal gan aelodau o staff sy'n eu hadnabod yn dda ac yn gallu rhagweld a diwallu eu hanghenion. Mae cynlluniau gofal y bobl yn canolbwyntio ar eu hanghenion a'u dewisiadau ac yn galluogi dewisiadau dyddiol/bob nos drwy egluro eu harferion dewisol. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y bobl yn trin yr arhosiad seibiant fel gwyliau a chaiff gweithgareddau eu cynllunio yn unol â hynny. Gwelsom lyfryn gyda lluniau o siopau a chaffis lleol, a gweithgareddau y gallai'r bobl ddewis yr hyn y dymunant ei wneud am y diwrnod ohonynt. Gall y bobl hefyd ddewis parhau i fynychu lleoliadau dydd os dymunant.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos â theuluoedd a gweithwyr cymdeithasol i gael cymaint o wybodaeth am anghenion a dewisiadau'r bobl â phosibl. Caiff y bobl gymorth i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau yn ystod eu harhosiad. Cofnodir dewisiadau iaith gyntaf y bobl, a gall y rhan fwyaf o'r staff siarad Cymraeg. Gwelsom unigolyn yn gwylio S4C ar y teledu, ac roedd y staff yn siarad Cymraeg â'r person. Mae cegin yno i'r bobl a'r staff ei defnyddio. Gwelsom y gallai'r bobl ddewis beth maent eisiau ei fwyta a'i yfed, ac mae byrbrydau ar gael yn hwylus. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau y darperir ar gyfer y bobl y mae angen deiet arbennig arnynt.

Caiff y bobl ofal mewn ystafelloedd mawr gyda theclynnau codi ar y nenfwd ac mewn ystafelloedd ymolchi er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu symud yn ddiogel. Mae'r cyfleusterau'n gyfeillgar i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Mae'r cartref mewn cyflwr da ac yn rhannu cyfleustodau â'r cartref gofal cyfagos, Tan y Marian. Arosiadau tymor byr yn unig a gynigir yn y cartref ac felly caiff yr ystafelloedd eu cadw'n blaen, ond gall y bobl ddod ag eiddo o'u cartref fel cysur. Gall y bobl ddefnyddio'r ardaloedd awyr agored a chânt gymorth i ymweld â'r dref a'r ardaloedd cyfagos.

Mae'r staff wedi cael yr hyfforddiant a'r oruchwyliaeth ddiweddaraf i'w cefnogi yn eu hymarfer. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu lleol i gadw'r bobl sy'n agored i niwed yn ddiogel pe bai ganddynt unrhyw bryderon.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos â'r bwrdd iechyd lleol a chaiff atgyfeiriadau eu gwneud gan weithwyr proffesiynol er mwyn i'r bobl gael arosiadau seibiant yn y cartref. Caiff asesiadau gofal eu rhannu cyn i'r person gael ei dderbyn i'r cartref. Mae'r rheolwr neu'r dirprwy yn asesu anghenion yr unigolyn ac yn trafod y rhain â'r teulu cyn derbyn yr unigolyn. Mae'r cynlluniau personol unigol yn cael eu gwneud ar gyfer yr unigolyn, ac yn canolbwyntio ar ei anghenion yn ystod yr arhosiad. Caiff y cynlluniau eu diweddaru cyn pob arhosiad seibiant newydd ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd.

Pe byddai'r bobl yn mynd yn sâl yn ystod eu harhosiad, byddai'r gwasanaeth yn ffonio'r teulu a'r meddyg teulu lleol neu feddyg teulu y tu allan i oriau, yn dibynnu ar yr adeg o'r dydd. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf, a hyfforddiant mewn anghenion gofal penodol megis epilepsi. Mae'r ddogfennaeth hyfforddiant yn dangos bod hyfforddiant y staff yn gyfredol. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw bod yr hyfforddiant yn dda a'i fod yn eu helpu yn eu rôl ddyddiol. Caiff y staff eu hyfforddi mewn diogelu unigolion. Gellir gwneud atgyfeiriadau achosion o drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid at y bobl sydd methu gadael y gwasanaeth heb gymorth neu oherwydd penderfyniadau er budd gorau.

Gwelsom fod gan y bobl ddewis personol am sut i dreulio eu hamser.  Gwelsom unigolyn yn cael dewisiadau o ran pryd bwyd nos, a oedd yn cael ei goginio gan y staff. Mae'r staff yn helpu'r bobl â'u prydau bwyd a gyda gofal personol os bydd angen cymorth arnynt. Mae gan y bobl a'r staff gydberthynas gyfeillgar a chaiff y bobl eu trin ag urddas a pharch.

Gall y bobl gael gafael ar eu meddyginiaeth; cânt eu storio mewn modd diogel yn unol â'r rheoliadau. Gall y bobl gymryd eu meddyginiaeth eu hunain os gallant, a gwneir asesiad risg ar hyn cyn iddynt gael eu derbyn i'r cartref. Mae'r staff yn goruchwylio'r feddyginiaeth a gymerir er mwyn sicrhau diogelwch y bobl.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref wedi'i ddylunio ar gyfer y gwasanaeth. Mae'n fodern, yn fawr ac yn lân. Nid oes unrhyw rwystrau i rodfeydd na diangfeydd tân. Dywedodd y rheolwr wrthym am rai problemau storio cyfarpar a chaiff hyn ei roi ar waith. Mae'r ystafelloedd yn gyfeillgar i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn gyda digon o le i bobl fod yn gyfforddus a diogel. Gall y bobl ddefnyddio'r ardaloedd awyr agored yn y cartref; mae'r rhain mewn cyflwr da.

Mae'r cartref yn agos at gartref gofal Tan y Marian ac maent yn rhannu rhai cyfleustodau. Caiff y ddau gartref brofion tân wythnosol gyda gwiriadau goleuadau argyfwng a diffoddwyr tân. Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r profion dŵr a chyfarpar trydan. Caiff y cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer gofal y bobl ei wasanaethu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr sy'n gyfredol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn ôl yr angen i siarad â'r staff a'r bobl ac i oruchwylio'r amgylchedd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn creu adroddiad ansawdd gan ddangos gwerthusiad o'r gwasanaeth ac ansawdd y gofal a ddarperir. Dywedodd y rheolwr wrthym eu bod yn cael cymorth a goruchwyliaeth dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a gallant drafod eu hanghenion hyfforddiant.

Gwelsom fod arferion cadw staff a recriwtio da yn y gwasanaeth. Mae gwiriadau digonol ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn briodol i weithio gydag oedolion agored i niwed. Mae'r gwiriadau hyn yn gyfredol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael hyfforddiant da a goruchwyliaeth reolaidd i'w helpu yn eu hymarfer dyddiol. Roedd y dogfennau hyfforddiant a goruchwyliaeth yn adlewyrchu'r safbwynt hwn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus wrth eu gwaith a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr.

Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi gwybod am unrhyw bryderon ariannol i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Gwelsom fod digon o fwyd a diodydd ar gael ar gyfer anghenion y bobl. Mae'r cartref a'r cyfarpar mewn cyflwr da. Dywedodd y rheolwr wrthym y gallai ofyn am gyfarpar a dodrefn newydd yn ôl yr angen.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/08/2023